

Pensiynau ac offer ymddeol

Wrth i chi nesáu at eich ymddeoliad, mae eich sefyllfa ariannol yn newid.

Efallai eich bod yn cwtogi'ch oriau gweithio'n raddol, i weithio'n rhan-amser o bosibl, ac yn y pen draw bydd y rhan helaeth o bobl yn dymuno rhoi'r gorau i weithio'n llwyr.

Felly bydd angen ffynonellau eraill o incwm arnoch i lenwi'r bwlch a adawyd gan eich cyflog neu'ch enillion.

Ar ryw adeg yn eich 60au, bydd Pensiwn y Wladwriaeth yn dod yn weithredol ac efallai y bydd gennych bensiynau eraill hefyd.

Os oes gennych y math o bensiwn lle rydych yn cynyddu'ch cronfa gynilion, gallwch dynnu cyfandaliadau neu incwm ohono unrhyw bryd y mynnwch pan fyddwch wedi cyrraedd o leiaf 55 oed.

Gallwch hyd yn oed dynnu'r cyfan allan fel arian parod - er nid yw hynny'n debygol o fod yn syniad da ar gyfer y rhan fwyaf o bobl.

Bydd y dewisiadau a wnewch yn dibynnu ar eich sefyllfa benodol – faint o incwm ymddeoliad fydd ei angen arnoch, pa ffynonellau eraill o incwm fydd gennych, eich iechyd, pa mor fodlon ydych wrth gymryd risgiau a faint o dreth a dalwch.

Bydd angen ychydig o incwm diogel arnoch y gallwch ddibynnu arno i dalu'r biliau a phara drwy gydol eich ymddeoliad.

Unwaith y bydd hynny yn ei le, gallai'r opsiynau hyblyg newydd fod yn ffordd dda o ymdopi â'r anghenion newidiol drwy gydol eich ymddeoliad.